05

Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau

Rhowch wybod yn rheolaidd i'r cyfryngau, ynghyd â chydweithwyr yn Darganfod Ceredigion a Croeso Cymru, am eich newyddion a'ch digwyddiadau diweddaraf i gael ffynhonnell werthfawr o gyhoeddusrwydd am ddim. Ond cyn drafftio datganiad, dylech holi'r cwestiwn hwn i chi eich hun:

Ydy eich stori'n werth ei hadrodd?

Mae nifer o efennau i'w hystyried wrth lunio stori, ond yn gyntaf, meddyliwch 'beth sy'n gwneud fy stori'n werth ei hadrodd'? Dyma rai ffactorau allweddol i'w hystyried wrth benderfynu ar werth eich stori:

Arwyddocâd a pherthnasedd

Meddyliwch am eich cynulleidfa bob amser wrth roi stori at ei gilydd. Ydy eich stori'n berthnasol yn genedlaethol, ynteu ydych chi'n targedu cynulleidfa lai o faint neu un sydd â diddordebau arbennig? Meddyliwch sut y bydd eich cynnyrch neu wasanaeth yn fuddiol i'ch cynulleidfa, a chofiwch, po fwyaf o bobl a gaiff eu heffeithio gan y stori, y mwyaf yw ei gwerth newyddion.

Y pwnc

Mae deall y pwnc yn hanfodol i sicrhau bod stori'n werth ei hadrodd. Meddyliwch pam fod y pwnc o ddiddordeb i'r gynulleidfa darged. Ym mha ffordd mae eich cynnyrch neu wasanaeth yn unigryw?

Agenda'r cyfryngau

Ydy eich stori'n cyd-fynd ag agenda'r cyfryngau rydych chi'n ceisio eu denu? Meddyliwch am y math o gynulleidfa maen nhw'n eu denu ac a ydyn nhw'n debygol o fod eisiau defnyddio'r stori.

Drafftio datganiad i'r wasg

Unwaith hi chi benderfynu fod eich stori'n werth ei hadrodd ac yn gwybod pa gyfeiriad rydych chi am fynd iddo, ewch ati i ddrafftio datganiad i'r wasg. Defnyddiwch y canllaw isod i ddrafftio datganiad syml, clir a chryno fydd yn tynnu sylw'r cyfryngau.

Holwch eich hun…

- Ar gyfer pwy ydych chi'n ysgrifennu a beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni?
- Beth ydych chi'n ceisio ei ddweud a sut gallwch chi ei ddweud yn glir ac yn gryno?
- Ydy'r stori hon o ddiddordeb cenedlaethol neu leol?
- Ydy'r stori ar gyfer y cyfryngau ar-lein, print neu ddarlledu?

Rhestr wirio'r datganiad i'r wasg

Mae'r awgrym isod yn amlinellu popeth sydd ei angen arnoch chi i ysgrifennu datganiad llwyddiannus i'r wasg:

1. Dilynwch yr un strwythur ag y byddai newyddiadurwr yn ei ddefnyddio i ysgrifennu erthygl: pennawd uniongyrchol, byr; mynegiant cryno ac effeithlon; cymaint o wybodaeth â phosibl; delweddau mawr, clir
2. Rhowch cymaint o wybodaeth â phosib ar y dechrau gan ychwanegu mwy drwy gydol y darn
3. Ceisiwch gael dyfyniad bob tro – mae darparu dyfyniad yn arbed llawer o waith i'r newyddiadurwr
4. Rhowch unrhyw wybodaeth bellach ar y diwedd
5. Edrychwch a yw'n bosib byrhau'r darn neu dynnu unrhyw beth diangen. Ceisiwch osgoi geiriau hir pan fydd gair byr symlach yn gwneud y tro. Cofiwch osgoi jargon
6. Byr a brathog –un dudalen A4 yw'r hyd delfrydol
7. Cyflwynwch y darn mewn ffordd sy'n hawdd ei anfon mewn ebost
8. Oes unrhyw ddolenni neu dudalennau cyfryngau cymdeithasol y gallwch chi eu hyrwyddo?
9. Nodwch fanylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth

Gwerthu'r stori

Unwaith i chi gael stori gwerth ei dweud ac ysgrifennu eich datganiad, mae'n bryd i chi werthu'r stori i'r cyfryngau. Dyma ambell awgrym ar gyfer gwerthu eich stori a sicrhau sylw i'ch busnes:

1. Peidiwch byth â gwerthu stori nad yw'n werth ei dweud, bydd yn adlewyrchu'n wael arnoch chi a'ch busnes
2. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall eich pwnc yn drylwyr a byddwch yn barod i ateb cwestiynau
3. Cadwch gofnod o'r newyddiadurwyr rydych chi wedi cysylltu â nhw a'r rhai sydd wedi defnyddio'r stori
4. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'r cyhoeddiad neu'r rhaglen dan sylw, gan edrych ar sylwadau neu straeon yn y gorffennol - bydd yn eich helpu i weld sut gallai'r stori fod yn berthnasol
5. Paratowch ebost yn nodi'n glir beth mae eich busnes yn ei wneud a sôn am bwnc y datganiad
6. Ar ôl anfon yr ebost, ffoniwch. Crynhowch y datganiad a sgwrsiwch yn naturiol a chyfeillgar – bydd eu cael nhw i'ch hoffi chi yn cynyddu'r tebygolrwydd y caiff y stori ei defnyddio
7. Soniwch am lefydd, enwau a geiriau allweddol
8. Ystyriwch ddefnyddio gwasanaethau cwmni cysylltiadau cyhoeddus proffesiynol.

Datganiad i'r Wasg enghraifft

[RHOWCH EICH LOGO CHI YMA]

Templed o Ddatganiad i'r Wasg a Nodiadau i'r Golygydd

I'w ryddhau ar unwaith neu **nodwch y dyddiad a'r amser y gellir ei ddefnyddio**

(Dylech nodi hyn ar frig y datganiad cyn y teitl)

Teitl

Gallwch ddefnyddio pennawd ffeithiol neu geisio bod yn fwy creadigol drwy chwarae ar eiriau, ond cofiwch ei gadw'n glir a chryno bob amser.

Is-bennawd

Ambell waith mae is-bennawd sy'n hirach na'r teitl yn syniad da i ddenu sylw h.y. enw lle a allai dynnu sylw golygydd / newyddiadurwr os ydyn nhw'n chwilio am straeon o'r ardal honno

Paragraff 1

Dylech geisio cwmpasu'r stori gyfan yn y paragraff cyntaf. Fodd bynnag, cadwch hwn yn fyr ac yn syml, heb fod yn hirach na dwy frawddeg. Mewn sawl ffordd, dyma ran bwysicaf y datganiad a dylech gynnwys yr wybodaeth bwysicaf yn y brawddegau cyntaf hyn, oherwydd does dim gwarant y bydd y darllenydd yn darllen gweddill y stori.

Paragraff 2 (ac os oes angen, 3)

Yma dylech helaethu ar yr wybodaeth yn y paragraff cyntaf a chynnwys rhagor o fanylion a mwy o'r stori.

Paragraff 3

Os oes angen, gallwch gynnwys dyfyniad gan lefarydd eich busnes yma. Gan ddibynnu ar natur y datganiad, gallai gynnwys galwad i weithredu drwy annog darpar ymwelwyr i ddod i weld beth sydd gennych chi i'w gynnig iddyn nhw. Unwaith eto, dylech gadw hwn i ddwy neu dair brawddeg.

Paragraff 4

Dylai'r paragraff olaf gynnwys gwybodaeth gefndir fwy cyffredinol a gallai gynnwys rhagor o fanylion am eich busnes sydd ddim wedi'u cynnwys mewn rhan arall o'r datganiad.

--Diwedd—

(Dylech nodi'n glir ymhle mae'r datganiad yn gorffen)

Rhagor o wybodaeth: os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw beth yn y datganiad hwn, cysylltwch â **X** ar **X** (cofiwch gynnwys URL eich gwefan)

Nodiadau golygyddol (dyma lle gallwch roi gwybodaeth gefndir fanwl y gallai'r newyddiadurwr ddewis ei chynnwys neu beidio, ond dylai gynnwys rhai o'r manylion a nodir isod):

1. **Delweddau:** nodwch gaption a chyfeiriad ar gyfer unrhyw ddelweddau sy'n cyd-fynd â'r datganiad

[RHOWCH EICH LOGO CHI YMA]

2. **Manylion am [Enw eich busnes]:** (Yma dylech ysgrifennu rhai brawddegau – hyd at baragraff byr – am eich busnes. Dylai'r wybodaeth gynnwys lleoliad a pha wasanaethau rydych chi'n eu cynnig – gwybodaeth debyg i beth fyddech chi'n ei gynnwys fel arfer ar adran "Amdanom ni" ar wefan)

3. **Ceredigion**: I gael trosolwg cyflawn o'r hyn sydd gan Geredigion i'w gynnig fel cyrchfan i dwristiaid, ewch i wefan Darganfod Ceredigion (www.discoverceredigion.wales) neu ebostiwch (tourism@ceredigion.gov.uk), am ragor o wybodaeth am lety, bwyd a diod, atyniadau, digwyddiadau a threfniadau trafnidiaeth.

Neu gallwch gysylltu â neu alw heibio un o'r Canolfannau Gwybodaeth Twristiaeth:

- Canolfan Gwybodaeth Twristiaeth Aberystwyth 01970 612125 | aberystwythTIC@ceredigion.gov.uk
- Canolfan Gwybodaeth Twristiaeth Aberaeron 01545 570602 | aberaeronTIC@ceredigion.gov.uk
- Canolfan Gwybodaeth Twristiaeth Aberteifi 01239 613230 | cardiganTIC@ceredigion.gov.uk